

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

National Assembly for Wales

Children, Young People and Education Committee

Vaughan Gething AC
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,
Llywodraeth Cymru

16 Ionawr 2019

Annwyl Vaughan,

Iechyd meddwl amenedigol yng Nghymru: craffu dilynol

Diolch am ddod i sesiwn y Pwyllgor ar 10 Ionawr i drafod gweithredu ein hargymhellion ynghylch iechyd meddwl amenedigol, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2017.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r camau a gymerwyd i sefydlu Rhwydwaith Clinigol Rheoledig ar gyfer iechyd meddwl amenedigol, a'r ffaith i arweinydd clinigol y Rhwydwaith hwnnw gael ei benodi yn ddiweddar. Rydym hefyd yn croesawu'r gwaith parhaus i gryfhau'r gefnogaeth sydd ar gael trwy dimau iechyd meddwl amenedigol cymunedol.

Serch y datblygiadau hyn, roeddem yn bryderus iawn oherwydd y diffyg cynnydd o ran sefydlu darpariaeth uned mamau a babanod yng Nghymru. Mae hi bellach yn 15 mis ers i ni alw am i gamau brys gael eu cymryd yn y maes hwn, ac mae'n dros 18 mis ers i Bwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru (WHSSC) a Llywodraeth Cymru geisio rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor fod rhestr fer o opsiynau yn cael ei hystyried a bod penderfyniadau ar y ffordd ymlaen ar ddod. Rydym yn cydnabod y cymhlethdodau o ran cydbwysio lefel y galw a chynnal lefelau digonol o gymorth arbenigol, ond nid yw'n dderbyniol ein bod aros o hyd am ddarpariaeth ddigonol ar gyfer y mamau a'r babanod hynny y mae salwch meddwl amenedigol yn effeithio arnynt fwyaf.


Er bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud mewn perthynas â chasglu data iechyd meddwl amenedigol, testun pryder arall oedd dysgu na fydd setiau data llawn a chynhwysfawr ar gael tan 2022. O ystyried pwysigrwydd data ar gyfer deall y galw a pherfformiad y gwasanaeth, credwn fod angen cyflymu'r gwaith hwn, a hynny fel blaenoriaeth. Heb y wybodaeth hon, credwn y bydd heriau'n ymwneud â chynllunio darpariaeth gwasanaeth ddigonol yn parhau'n anodd ei goresgyn. Er gwaethaf dyheadau datganedig i sicrhau



cydraddoldeb rhwng iechyd meddwl ac iechyd corfforol, rydym yn amau y byddai'n dderbyniol aros cyhyd am i setiau data salwch corfforol gael eu datblygu.

Rydym yn croesawu eich cynnig i ddarparu diweddariadau bob chwe mis ar y cynnydd a wneir wrth weithredu ein hargymhellion. Fodd bynnag, er mwyn inni allu craffu ar eich gwaith yn y maes hwn mewn modd digonol, cadarn a theg, gofynnwn i chi roi yr adeg hon syniad o'r cerrig milltir yr ydych yn disgwyl eu cyrraedd bob chwe mis, rhwng nawr a diwedd y Cynulliad hwn. Rydym hefyd yn croesawu eich cynnig i ddarparu'r cyntaf o'r diweddariadau hyn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon, gan fapio'r ddarpariaeth a'r galw am wasanaethau mewn gwahanol leoliadau. Pan ddaw'r wybodaeth honno i law, byddwn yn ystyried a oes angen i ni wneud gwaith dilynol ychwanegol, gan gynnwys a fydd angen tynnu sylw'r Cynulliad at y cynnydd a wnaed mewn datganiad yn y Cyfarfod Llawn.

Yn gywir,



Lynne Neagle AC
Cadeirydd

